Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais

**Blaendulais**
**Castell-nedd**
**SA10 9AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 72 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 9.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 28% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 05/12/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Blaendulais yn ysgol hapus, gartrefol a gofalgar sy’n annog disgyblion i fod yn falch o’u cymuned, eu diwylliant a’u Cymreictod. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn aeddfed ac yn barchus tuag at eraill ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchiol iawn â’r disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau’r gymuned sy’n hyrwyddo agweddau positif o ran y dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn ac yn ymwybodol iawn o sut i ofalu am eu llesiant.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio’n ddiwyd i ddarparu ystod dda o brofiadau buddiol sy’n canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cynefin. Gwnânt ddefnydd effeithiol o’r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu awyr agored y disgyblion ac i feithrin eu medrau. Mae’r pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar disgyblion yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith lafar raenus a thafodiaith naturiol yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu sy’n atgyfnerthu a chymhwyso medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid ydynt bob tro’n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd. Yn ogystal, mae gor-arwain gan athrawon a chynorthwywyr ar adegau yn amharu ar ddatblygiad dysgu annibynnol disgyblion a’u medrau meddwl.

Er eu bod yn gymharol newydd i’w swyddi, mae’r pennaeth dros dro a’r dirprwy bennaeth dros dro yn cydweithio’n effeithiol â rhanddeiliaid i gynnal a gwella’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Gyda chefnogaeth egnïol cadeirydd y corff llywodraethol, mae arweinwyr a’r staff yn ymrwymo i gynnig y cychwyn gorau i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Blaendulais. Mae’r ethos tîm cryf iawn sy’n bodoli ar draws yr ysgol yn cefnogi hyn yn dda. Er bod arweinwyr yn llwyddiannus wrth wella elfennau penodol o’r ddarpariaeth, nid yw’r prosesau hunanwerthuso bob tro’n ddigon cadarn i adnabod yn glir yr hyn maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â’u dysgu

A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn briodol mewn cyd-destunau gwahanol sy’n eu hannog i fwynhau eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith lafar raenus a thafodiaith naturiol yn llwyddiannus i gyfathrebu'n feddylgar ac yn sensitif â'u ffrindiau ac i rannu eu syniadau’n hyderus gydag eraill. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol gan ddatblygu eu geirfa a phatrymau iaith yn bwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn disgrifio a thrafod cymeriadau o chwedl Hugan Fach Goch ac mae disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio geirfa Gymraeg gyfoethog yn rhwydd yn eu trafodaethau am gyhyrau’r corff.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o dechnegau darllen yn effeithiol i ddehongli geiriau llai cyfarwydd. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau’n gadarn ac yn mwynhau darllen ystod berthnasol o lyfrau a thestunau digidol.

Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn cyn symud ymlaen at greu marciau'n bwrpasol y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft trwy ddefnyddio siswrn i dorri siapiau ac wrth wneud toes i greu siâp cacennau. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu medrau’n llwyddiannus gan ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Wrth i’w medrau ddatblygu, maent yn defnyddio ystod dda o atalnodi ac yn sillafu geiriau mwy cymhleth yn gywir. Mae llawer o’r disgyblion yn datblygu arddull llawysgrifen rugl, daclus ac yn cyflwyno eu gwaith gyda gofal a pharch. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn dewis a dethol geiriau’n fwriadus wrth gasglu ac ysgrifennu gwybodaeth am anifail y goedwig. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n fwyfwy estynedig wrth ysgrifennu bywgraffiad o gadeirydd y llywodraethwyr. Yn gyffredinol, mae llawer o’r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm drwy gwblhau eu heriau annibynnol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. At ei gilydd, maent yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhif yn gyson mewn sesiynau a gweithgareddau dysgu mathemateg ar hyd y flwyddyn. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen ar waelod yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio’u medrau rhif yn briodol wrth ddatrys problemau ymarferol. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio’u gwybodaeth am arian a gwerth lle yn gynyddol hyderus i gyfri cyfanswm hyd at ugain punt. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r flwyddyn, mae’r rhan fwyaf yn datblygu amrediad buddiol o fedrau mathemategol yn gadarn, er enghraifft wrth greu graff gwasgariad i ddangos y berthynas rhwng curiad calon ac amser rhedeg. Er eu bod yn datblygu’r medrau sylfaenol hyn yn llwyddiannus, prin yw’r cyfleoedd iddynt

gymhwyso a datblygu eu medrau'n llawn ar draws y meysydd dysgu a phrofiad yn rheolaidd. O ganlyniad, nid yw medrau rhifedd y disgyblion wedi datblygu'n ddigon effeithiol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn llwyddiannus i ymchwilio ac i gefnogi eu dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad yn rheolaidd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy ac yn dyfalbarhau am gyfnodau priodol i ddatrys problemau. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion yn hyderus wrth greu graffiau i gofnodi data ac yn defnyddio meddalwedd codio syml yn llwyddiannus i greu amrywiaeth o gemau rhyngweithiol yn ymwneud â thema dosbarth.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Maent yn arbrofi â deunyddiau naturiol wrth greu gwaith celf fel modelau toes o anifeiliaid y goedwig leol. Yn ogystal, mae'r disgyblion ieuengaf yn fentrus wrth arbrofi'n llwyddiannus ag amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol, fel defnyddio dail a brigau amrywiol i efelychu gwaith arlunydd sy'n enwog am ei gerfluniau naturiol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau perfformio a chymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol amrywiol, er enghraifft trwy ymgymryd â gwersi offerynnol a chanu yn y côr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn gadarn drwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio'r offer beiciau yn egnïol gan ddangos medrau cadw cydbwysedd da. Datblygir y medrau hyn ymhellach wrth i ddisgyblion ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu eu medrau corfforol a datrys problemau mewn modd creadigol drwy gydweithio i groesi brasfodel o'r afon Dulais.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Rhai o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r natur gynhwysol, yr ethos gofalgar a'r awyrgylch gartrefol sydd ynddi. Mae bron bob un disgybl yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthynas gadarnhaol ag oedolion. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn rhagorol ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd ag eraill. Maent yn dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd gan ddangos parch at gyfraniadau eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad yn hyderus am eu dealltwriaeth o hawliau plant ac oedolion yn dilyn eu trafodaethau yn ystod 'wythnos amrywiaeth' yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gweithgareddau dysgu am gyfnodau estynedig, gan ddangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau i geisio datrys problemau yn annibynnol neu drwy ofyn i gyfoedion os ydynt yn wynebu anawsterau. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill ac yn cyfrannu'n weithredol wrth ddatrys problemau. Er hyn, mae'r diffyg cyfleoedd cyson i ddefnyddio a datblygu eu medrau yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm yn cyfyngu ychydig ar fedrau dysgu annibynnol y disgyblion.

Trwy eu cyd-ddealltwriaeth o foesau a gwerthoedd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthynas waith glòs sydd wedi'i seilio'n gadarn ar ymddiriedaeth a pharch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau a digwyddiadau sy'n cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned. Maent yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn cefnogi a chyfrannu'n werthfawr at waith y cynghorau ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn dylanwadu'n bositif ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, trefnwyd siop cyfnewid teganau gan y pwyllgor eco a defnyddiwyd yr elw i sicrhau offer chwarae ar yr iard. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at eu dealltwriaeth o werthoedd yn ymwneud ag ailgylchu a gofalu am yr ardal leol a'r byd ehangach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft wrth gefnogi ymgyrch i gasglu eitemau dyngarol ar gyfer ffoaduriaid fel canlyniad i'r rhyfel yn Wcráin.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn deall yr angen am ddiet cytbwys ac am yr angen i gadw'n heini ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta ac yfed. Yn ogystal, mae llawer yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl a chinio ac mewn clwb rygbi ar ôl oriau ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y 'Clwb Cinio Cŵl' i ymgymryd â gweithgareddau gwaith celf wrth wrando ar gerddoriaeth dawel i hybu eu lles a'u hiechyd meddwl.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall bod lles emosiynol yn bwysig ac maent yn cymryd rhan weithredol wrth warchod yr agwedd hon ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn rhannu eu teimladau'n anhysbys wrth gofrestru'n ddyddiol yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn hybu iechyd meddwl yn dda ac yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu hemosiynau.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ddieithriad, mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi sydd yn cyfrannu'n dda at wireddu gweledigaeth yr ysgol ac ymglymiad disgyblion yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn modelu iaith raenus yn effeithiol ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg lafar gywir yn gyson ac yn hyderus, er enghraifft trwy annog disgyblion Blwyddyn 2 i ddisgrifio nodweddion eu modelau o anifeiliaid gan ddefnyddio geirfa pwnc, cystrawen a threigliadau cywir. At ei gilydd, maent yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n adeiladu'n gynyddol ar wybodaeth, medrau a phrofiadau disgyblion. Yn yr arfer orau, mae gweithgareddau ieithyddol yn ystod sesiynau iaith yn cael eu hatgyfnerthu trwy heriau annibynnol i'r disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu ac adnoddau er mwyn sbarduno diddordeb y disgyblion a datblygu eu medrau, er enghraifft trwy osod her i'r disgyblion ieuengaf adeiladu lloches yn yr ardal allanol ac i ymchwilio i faw anifeiliaid y goedwig er mwyn cofnodi beth maent yn ei fwyta. Mae athrawon a chynorthwywyr yn gwneud eu dosbarthiadau a mannau eraill ar draws yr ysgol yn amgylcheddau ysgogol a difyr lle gall ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n lled annibynnol. At ei gilydd, maent yn cynllunio cyfleoedd

priodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad trwy osod heriau addas sy'n hybu dysgu annibynnol. Er hyn, mae athrawon a chynorthwywyr yn gor-arwain y disgyblion ar adegau sy'n amharu ar eu datblygiad dysgu annibynnol a'u medrau meddwl. Yn ogystal, mae defnydd o daflenni gwaith a dulliau dysgu mwy ffurfiol ar gyfer sesiynau llythrennedd a rhifedd yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gofnodi'n ymestynnol ac i ddefnyddio'u medrau yn fwy annibynnol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn gadarn, gan gynnwys eu hanghenion emosiynol a lles. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol gan ddefnyddio ystod o ganlyniadau profion safonol a gwybodaeth arall am eu datblygiad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymateb yn brydlon i'w hanghenion a'u cefnogi'n amserol. Yn gyffredinol, mae cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu yn gadarn yn ogystal â chefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio holi medrus yn effeithiol i ddatblygu medrau a dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn cynnig adborth llafar buddiol ac amserol er mwyn annog y disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella'u gwaith. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n  sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion wella'u gwaith yn gwbl annibynnol yn dilyn adborth neu i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau wythnosol ag ardal y 'tips' yn lleol, lle mae'r tirlun wedi ei ailfodelu ar gyfer defnydd y cyhoedd. Yma, mae'r disgyblion yn dysgu am fyd natur yr ardal ac yn cynnal gweithgareddau ar y cyd sy'n cryfhau eu gallu creadigol i weithio'n gorfforol ac fel aelod o dîm. Mae hyn yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r ardal leol a byd natur yn ogystal â hybu medrau cymdeithasol, corfforol a datrys problemau yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw'r ardaloedd allanol ar safle'r ysgol wedi eu datblygu'n llawn er mwyn rhoi mynediad cyson i'r disgyblion, yn enwedig y rhai ieuengaf. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gyfoethogi eu dysgu ac i ddatblygu'u medrau'n annibynnol yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r staff wedi gwneud cynnydd da tuag at sefydlu egwyddorion a chynnwys y Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol. Maent wedi cydweithio â disgyblion, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r pedwar diben yn llwyddiannus ac yn fwy perthnasol i fywydau'r disgyblion. Un o gryfderau cwricwlwm yr ysgol erbyn hyn yw'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo natur ddiwylliannol a threftadaeth leol a Chymru. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu'n  sicrhau ymdeimlad cryf o berthyn i'r cwm ymysg y disgyblion ac yn tanio'u diddordeb i ddysgu mwy am eu hanes a'u diwylliant. Er enghraifft, wrth drafod y cysyniad o ddewrder, mae disgyblion yr ysgol yn astudio trychineb ffrwydrad Dulais a'r dewrder a ddangosodd y trigolion lleol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i ddisgyblion ddysgu mwy am y byd ehangach y tu hwnt i Gymru.

At ei gilydd, mae'r athrawon yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn yr arfer orau, mae gweithgareddau ieithyddol yn ystod sesiynau iaith yn cael eu hatgyfnerthu drwy heriau annibynnol i'r disgyblion. Dros amser, mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r berthynas waith agos rhwng y staff a’r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned ofalgar sydd ag ethos cyfeillgar a chynnes. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae agweddau’r staff, a'r awyrgylch gadarnhaol ym mhob dosbarth, yn cefnogi’r disgyblion i ymgartrefu'n hawdd a chyfrannu’n dda at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu bodlonrwydd a'u lles ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at eu dysgu.

Agwedd nodedig o’r ddarpariaeth yw’r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith drwy’r ysgol ac yn dadansoddi’r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym ac yn darparu ymyraethau sy’n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus iawn. Ceir cydweithio arbennig rhwng y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a’r staff cymorth a rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn darparu ymyraethau a chefnogaeth fuddiol. Mae athrawon a cynorthwywyr yn cydweithio’n llwyddiannus ag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau er mwyn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau o gynnydd disgyblion yn arwain at ddealltwriaeth gadarn gan athrawon o anghenion y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae natur gynhwysol yr ysgol yn sicrhau perthnasoedd cryf rhwng disgyblion, eu teuluoedd a’r ysgol. Mae’r cyfathrebu effeithiol rhwng athrawon a rhieni yn sicrhau bod materion am eu plant yn cael sylw teilwng yn fuan. Mae’r holl staff yn trefnu nifer o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â’r gymuned sy’n atgyfnerthu’r ymdeimlad o berthyn ac yn helpu’r disgyblion i barchu a gofalu am eraill, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau Nadolig yn y pentref. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol sy’n cyfrannu’n werthfawr at y naws gymunedol sy’n bodoli. Mae’r staff yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol iawn ac mae’r defnydd o asiantaethau allanol, er enghraifft y swyddog cyswllt heddlu, yn cyfrannu’n dda at hyn. Yn ogystal, mae’r ysgol yn annog disgyblion i warchod eu hiechyd meddwl wrth fod yn barod i sgwrsio am eu teimladau. Mae aelod o staff cymwysedig yn cynnig sesiynau buddiol ar gyfer disgyblion sydd, er enghraifft, yn dioddef o gorbryder neu sydd angen cymorth â’u lles meddyliol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion hyn.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, eu treftadaeth a’u diwylliant. Maent yn amlygu cyfraniadau ‘Cymry Cŵl’ ym meysydd y celfyddydau ac adloniant ac amlygwyd hyn ymhellach yn ddiweddar wrth ddathlu taith Cymru i Gwpan y Byd, gan fod un o sêr y tîm yn gyn-ddisgybl yr ysgol. Dathlir eu Cymreictod yn dda trwy gynnal eisteddfod gadeiriol yn flynyddol a dathliadau arbennig fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, ymwelwyd â Chastell Caerdydd fel rhan o thema'r tymor hwn ac mae’r disgyblion hynaf wedi mynd ar daith breswyl i Sir Benfro. Mae’r ymweliadau hyn yn ennyn a chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae gweithgareddau yn ymwneud ag amrywiaeth yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag

aflonyddwch. Drwy hyn, llwydda'r ysgol i feithrin gwerthoedd cytûn yn effeithiol, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall mwy am y gymuned ehangach ac i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant, er enghraifft trwy drafod hawliau plant a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTC+).

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio ac i feddwl am grefyddau eraill trwy'r gwasanaethau dyddiol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn atgyfnerthu gwerthoedd cymunedol y disgyblion trwy drefnu iddynt gymryd rhan mewn ymgyrchoedd casglu arian at achosion da lleol a chenedlaethol. Serch hyn, nid yw'r cynlluniau ar gyfer addysgu disgyblion am gymunedau aml-ddiwylliannol yn cael eu cyflwyno'n ddigon rheolaidd.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau perthnasol yn rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth dros dro yn ymgymryd a'i rôl yn grefftus ac yn llwyddo i atgyfnerthu a chryfhau egwyddorion yr ysgol yn effeithiol. Yn y cyfnod ers ei phenodiad, mae wedi cydweithio'n llwyddiannus â rhanddeiliaid i greu gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, parchus ac uchelgeisiol sy'n barod i lwyddo. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau'r holl staff i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Cydweithir yn effeithiol â'r dirprwy bennaeth dros dro sy'n cyfrannu'n effeithiol at atgyfnerthu ethos tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr. Trwy gyfarfodydd a thrafodaethau staff rheolaidd, mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o brif flaenoriaethau'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cefnogi'r pennaeth dros dro a'i staff yn llwyddiannus. Mae'r cadeirydd yn hynod weithgar ac yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol er mwyn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau, er enghraifft trwy gefnogi sesiynau dysgu awyr agored a gwneud cyflwyniad i ferched am ei phrofiad o chwarae pêl-droed cerdded dros Gymru. Yn ogystal, mae'r corff llywodraethol yn manteisio ar arbenigeddau'r aelodau i gyfrannu'n werthfawr at waith yr ysgol, er enghraifft trwy gynnal hyfforddiant ar faterion LHDTC+ i'r staff, yn ogystal â darparu fideos byr ar sut i gadw'n heini yn ystod y cyfnodau clo'r pandemig Covid-19. Er nad yw aelodau'r corff wedi ymgymryd â llawer o weithgareddau monitro dros y tair blynedd ddiwethaf, mae adroddiadau a chyflwyniadau arweinwyr yn eu helpu i ddeall mwy am waith yr ysgol, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am newidiadau yn nhrefniadau'r ysgol yn sgil y ddeddf ADY newydd. Mae hyn yn cefnogi eu dealltwriaeth o ddarpariaeth a threfniadau cyfredol yr ysgol yn ogystal â'r cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff

llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr amserlen briodol ar gyfer gwerthuso’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent wedi ymgymryd ag ychydig o weithgareddau'r tymor hwn gan gynnwys dadansoddi a thrafod canfyddiadau profion cenedlaethol ac eraill, yn ogystal â chraffu ar lyfrau. Er bod arweinwyr yn adnabod ychydig o gryfderau a meysydd i’w gwella yn dilyn y gweithgareddau hyn, nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigonol ar arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a’r addysgu o ran ei effaith ar gyflawniad disgyblion. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth bob tro o’r hyn sy’n gweithio’n dda a beth sydd angen ei fireinio i wella’r ddarpariaeth a chanfyddiadau disgyblion. Mae cynllun datblygu’r ysgol yn adnabod tair blaenoriaeth sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau a lles disgyblion, er enghraifft trwy wella medrau llafar disgyblion a chefnogi disgyblion ADY.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy’n ymateb i’w gofynion unigol a blaenoriaethau’r ysgol yn gadarn. Er enghraifft, mae athrawon a chynorthwywyr dysgu wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol i ddatblygu medrau llafar disgyblion sy’n flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi cydweithio’n llwyddiannus â darparwyr a phartneriaid eraill i wella dealltwriaeth staff o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel cydweithio ag arbenigwyr o’r ysgol Saesneg gyfagos i gefnogi disgyblion ag ADY. Mae’r gweithgareddau hyn yn ymateb yn dda i wella medrau a dealltwriaeth staff i gefnogi disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno’r cwricwlwm ac maent yn defnyddio’r adnoddau’n effeithiol. Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac yn adolygu gwariant yn fanwl i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Maent yn cysylltu’r gwariant â blaenoriaethau’r cynllun datblygu yn briodol ac yn gwneud defnydd addas o’r cyllid a grantiau i gyfoethogi’r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023